national **dance** company **wales**

cwmni **dawns** cenedlaethol **cymru**

# Aelodau Cyswllt Ifanc 2025-26



# Diolch i chi am eich diddordeb mewn cael clyweliad ar gyfer ein Rhaglen Aelodau Cyswllt Ifanc.

**Mae rhaglen Aelodau Cyswllt Ifanc CDCCymru yn rhoi hyfforddiant dawns ysbrydoledig i ddawnswyr ifanc 13-18 oed i ddawnswyr o Gymru neu sy'n byw yng Nghymru. Mae sesiynau'n cael eu cynnal ar ddyddiau Sul yn ystod tymhorau ysgol Cymru rhwng 10:30 – 2:00pm gyda rhai dyddiau gweithdy ychwanegol. Arweinir y sesiynau gan yr Artist Dawns Ymgysylltu, Dawnswyr Cwmni CDCCymru ac artistiaid gwadd.**

Ers dros ddau ddegawd, mae Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru (CDCCymru) wedi bod yn meithrin a datblygu rhai o'r dawnswyr mwyaf dawnus ar draws y genedl. Mae Cyn-aelodau Cyswllt Ifanc CDCCymru wedi mynd ymlaen i hyfforddi yn Trinity Laban, Rambert, Northern School of Contemporary Dance, London School of Contemporary Dance Tring Park, Coleg Bird a mwy. Mae rhai hyd yn oed wedi dychwelyd atom fel Myfyrwyr Lleoliad Proffesiynol a Dawnswyr Cwmni.

Wedi'u lleoli yn y Tŷ Dawns, Caerdydd, cartref CDCCymru, mae ein Haelodau Cyswllt Ifanc yn dilyn rhaglen wedi'i chreu gan ein tîm Artistig sy'n cynnwys ein Cyfarwyddwr Artistig, a'n Artist Dawns Ymgysylltu, sy'n goruchwylio ac yn rhoi adborth a chefnogaeth yn ystod y rhaglen. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar wella sgiliau creadigol a thechnegol mewn dawns gyfoes, ynghyd â datblygu gwaith ar gyfer perfformio.

Mae'r rhaglen Aelodau Cyswllt Ifanc CDCCymru yn cael ei chyflwyno ar y cyd ag Northern School of Contemporary Dance.

---

## Fel rhan o'r rhaglen Aelodau Cyswllt Ifanc, bydd gennych gyswllt â'r cwmni proffesiynol a all gynnwys:

- Dosbarth dawns teirawr wythnosol (tymor Hydref a Gwanwyn).
- Cyfleoedd perfformio yn cynnwys gwaith newydd wedi'i goreograffu ar gyfer LANSIO - Noson Ddawns Ieuenctid yn y Tŷ Dawns ddiwedd mis Tachwedd.
- Ieuenctid yn y Tŷ Dawns ddiwedd mis Tachwedd.
- Cyfle i wylio ymarferion Cwmni a Dosbarthiadau Cwmni CDCCymru.
- Tocyn(nau) am ddim i berfformiadau CDCCymru yng Nghymru.
- Trafodaethau cyn/ar ôl y sioe gyda'r gweithwyr creadigol.
- Mentora gan Artistiaid CDCCymru.
- Sgyrsiau datblygu gyrfa.



## Amserlen ar gyfer Ceisiadau Aelodau Cyswllt Ifanc CDCCymru 2025-26

| Gweithgaredd | Dyddiad |
|---|---|
| Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau | Dydd Sul 1 Mehefin |
| Gweithdy clyweliadau | Dydd Sad 5 Gorffennaf |
| Ymgeiswyr yn derbyn penderfyniad drwy e-bost | Erbyn diwedd dydd Gwener 18 Gorffennaf |
| Tymor 2023-24 yn dechrau | Dydd Sul 14 Medi |

## Clyweliad Gweithdy

Bydd clyweliad gweithdy ar gyfer Aelodau Cyswllt Ifanc o Gymru neu wedi'u lleoli yng Nghymru yn cael ei gynnal yn y Tŷ Dawns, Bae Caerdydd ar: **Dydd Sul 5 Gorffennaf 10am-4pm.**


Gwnewch Gais drwy Ddefnyddio'r Ffurflen Gais

## Dosbarthiadau Wythnosol

Byddwn yn cynnal y Dosbarthiadau Aelodau Cyswllt Ifanc 2025-26 yn y Tŷ Dawns, Bae Caerdydd ar ddyddiau Sul yn unol â thymhorau hydref a gwanwyn yr ysgolion, 10:30am-2:00pm.

Bydd bob dydd Sul yn cynnwys dwy sesiwn, ac yn ystod y rhain, byddwch yn datblygu'ch sgiliau corfforol, creadigol, technegol a pherfformio. Bydd y sesiynau hyn yn cael eu cyflwyno gan CDCCymru ac artistiaid gwadd, gan weithio ag amrywiaeth o ddulliau symud.

Os ydych yn cael lle ar y rhaglen Aelodau Cyswllt Ballet Cymru, rhowch wybod i ni gan ein bod yn cydweithio â Ballet Cymru i sicrhau y gallwch adael y dosbarth yn gynnar unwaith y mis i fynd i'r sesiynau Ballet Cymru



# Prosiectau a Pherfformiadau

Mae’r rhaglen Artistiaid Cyswllt Ifanc yn cydnabod pwysigrwydd profiad perfformio a chreadigol yn ogystal â dosbarthiadau techneg, ac felly’n cynnig cyfle i weithio ar berfformiad gyda choreograffwyr proffesiynol yn **LANSIO – Noson Ddawns Ieuenctid** ddydd Sul 23 Tachwedd.

Bydd yn noson gyffrous sy’n datgelu dyfodol dawns, ac mae LANSIO yn noson o ddathlu artistiaid ifanc cyffrous sydd wrth eu bodd yn symud.

**Mae LANSIO yn rhan hanfodol o brofiad yr Aelodau Cyswllt Ifanc felly gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio'r dyddiadau hyn cyn gwneud cais i sicrhau eich bod yn gallu mynychu.**

| Gweithgaredd | Dyddiad |
|---|---|
| Creu LANSIO | 25-28 Tachwedd |
| Ymarferion a Pherfformiadau LANSIO | 22-23 Tachwedd |



# Amserlen

Rydym yn cynnig rhaglen lawn i ymgeiswyr llwyddiannus a fydd yn gymorth i feithrin a datblygu eu dawn ac yn rhoi cipolwg gwirioneddol ar y byd dawns proffesiynol iddynt. Gwyddom fod nifer o'n Haelodau Cyswllt Ifanc yn brysur, a dyna pam ein bod yn ceisio rhoi manylion am ein dyddiadau wythnosol a'n cyfleoedd perfformio ymlaen llaw. Os byddwch yn methu nifer o sesiynau yn ystod y flwyddyn, byddwn yn trafod hyn gyda chi ac efallai y bydd yn rhaid i ni ystyried cynnig eich lle fel Artist Cyswllt Ifanc i rywun ar ein rhestr aros.

**Nodwch y gall yr amserlen hon newid cyn dechrau'r rhaglen.**

## Tymor I 2024

| Sesiwn | Dyddiad | Amser |
|---|---|---|
| Sesiwn 1 | 14 Medi | 10.30 – 14.00 |
| Sesiwn 2 | 21 Medi | 10.30 – 14.00 |
| Sesiwn 3 | 28 Medi | 10.30 – 14.00 |
| Sesiwn 4 | 05 Hydref | 10.30 – 14.00 |
| Sesiwn 5 | 12 Hydref | 10.30 – 14.00 |
| Sesiwn 6 | 19 Hydref | 10.30 – 14.00 |
| **Cyfnod Creu LANSIO** | 25-28 Hydref | 10.00 - 17.00 yn ddyddiol |
| Sesiwn 7 | 09 Tachwedd | |
| Sesiwn 8 | 16 Tachwedd | 10.30 – 14.00 |
| **Ymarferion a Pherfformiadau LANSIO** | 22 Tachwedd i'w gadarnhau<br>23 Tachwedd | I'w gadarnhau<br>I'w gadarnhau |
| Sesiwn 9 | 30 Tachwedd | 10.30 – 14.00 |
| Sesiwn 10 | 07 Rhagfyr | 10.30 – 14.00 |

## Tymor 2 2023

| Sesiwn | Dyddiad | Amser |
|---|---|---|
| Sesiwn 11 | 11 Ionawr | 10.30 – 14.00 |
| Sesiwn 12 | 18 Ionawr | 10.30 – 14.00 |
| Sesiwn 13 | 25 Ionawr | 10.30 – 14.00 |
| Sesiwn 14 | 1 Chwefror | 10.30 – 14.00 |
| Sesiwn 15 | 8 Chwefror | 10.30 – 14.00 |
| Sesiwn 16 | 15 Chwefror | 10.30 – 14.00 |
| Hanner Tymor. Dim Dosbarth | | |
| Sesiwn 17 | 01 Mawrth | 10.30 – 14.00 |
| Sesiwn 18 | 08 Mawrth | 10.30 – 14.00 |
| Sesiwn 19 | 15 Mawrth | 10.30 – 14.00 |
| Sesiwn 20 | 22 Mawrth | 10.30 – 14.00 |
| Sesiwn 21 | 29 Ebrill | 10.30 – 14.00 |
| **Tymor Dosbarthiadau Dydd Sul yn dod i ben** | | |

## Cost

**Mae'r rhaglen Artistiaid Cyswllt Ifanc yn costio cyfanswm o £495 y flwyddyn ar gyfer dosbarthiadau hyfforddiant cyfoes wythnosol, a dyddiau Creu, Ymarfer a Pherfformio.**

Gellir talu'r ffioedd mewn pedwar rhandaliad rhwng Medi-Rhagfyr.

Dylech fod ar gael ar gyfer yr holl ddosbarthiadau a pherfformiadau ac ni cheir unrhyw ostyngiad ar gyfer sesiynau a fethir. Os byddwch yn dewis gadael y rhaglen bydd cyfanswm y ffioedd yn dal i fod yn daladwy.

Rhaid talu’r ffioedd drwy Drosglwyddiad Banc neu Archeb Sefydlog Fisol yn unig - os yw hyn yn peri problem i chi, rhowch wybod i ni os byddwch yn cael cynnig lle.

## Bwrsariaethau

**Os yw arian yn rhwystr i chi, gallwn gynnig cymorth.**
**Mae gwneud cais yn broses gyflym a syml, ac nid yw’n seiliedig ar brawf modd.**

Eleni, rydym yn falch o allu cynnig pum ysgoloriaeth lawn ar gyfer y rhaglen Aelodau Cyswllt Ifanc, a hynny oherwydd cefnogaeth hael gan Leverhulme Trust.

Bydd yr ysgoloriaethau hyn yn talu cost lawn y rhaglen Aelodau Cyswllt Ifanc 25-26.
Rydym hefyd yn gallu cynnig nifer cyfyngedig o fwrsariaethau ar gyfer cynorthwyo gyda chost y cwrs.

Os ydych chi’n cael cynnig lle ar y rhaglen, a diddordeb mewn ysgoloriaeth neu fwrsariaeth, yr oll sydd angen i chi ei wneud yw cysylltu â young.associates@ndcwales.co.uk i wneud cais am fwrsariaeth, mae mor syml â hynny.

Ni ellir cyflwyno cais am gymorth ariannol hyd nes bydd cynnig wedi’i wneud a rhaid gwneud hynny o fewn 10 diwrnod o dderbyn y cynnig.



**Lluniau:**
**Kirsten McTernan**

Goodson Thomas 10 · LEVERHULME TRUST · Colwinston Charitable Trust · Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales · Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government